

## **DAEARYDDIAETH FFISEGOL**

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Dylai pob ymgeisydd gwblhau Rhan A, ac ateb **UN cwestiwn yn unig** o Ran B

---

### **RHAN A (50%)**

**Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r rhan hon**

Dewiswch 5 o dirffurfiau a geir mewn amgylchedd o'ch dewis chi (e.e. afonol, rhewlifol, sychdir, arfordirol). Disgrifiwch brif nodweddion pob tirffurf, ac esboniwch y prosesau a arweiniodd at ei ffurfio.

.....

### **RHAN B (50%)**

Dylai ymgeiswyr **ateb un** o'r cwestiynau canlynol:

1. Dewiswch un math o berygl naturiol (e.e. folcanig, seismig, meteorolegol), a rhowch ddarlun cyffredinol o'r prif nodweddion, a thrafod yr effeithiau ar bobl a'r amgylchedd adeiledig.
2. Beth yw prif achosion y newid yn yr hinsawdd sydd wedi digwydd dros ychydig o ganrifoedd?
3. Disgrifiwch brif nodweddion neu dirffurfiau geomorffolegol yr ardal lle'r ydych yn byw.
4. Disgrifiwch effeithiau cadarnhaol a negyddol argaeau mawr. Defnyddiwch enghreifftiau i gefnogi eich ateb.
5. 'Mae lluniau lloeren yn golygu nad oes angen gwaith maes daearyddiaeth ffisegol erbyn hyn.' Trafodwch y gosodiad hwn gan ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eich ateb.
6. Ysgrifennwch am y ffactorau sy'n rheoli llif rhewlif ac esboniwch pam y mae rhewlifoedd gwahanol yn symud ar raddfeydd gwahanol.

7. Disgrifiwch brif storfeydd carbon y byd gan gloriannu sut y mae gweithgarwch pobl wedi newid y storfeydd hynny.